Martyn Housden


REX

Banerwyr yn cyrraedd rali'r blaid yn Nuremberg.

# Hanes Bwriadol
## yn erbyn
# Hanes Strwythurol

*Ymhle mae haneswyr yn chwilio am wreiddiau yr Holocost?*

Roedd Hitler yn sicr yn wrth-Semitig, ac felly hefyd arweinwyr y mudiad Sosialaidd Cenedlaethol, ond nid oedd eu rhagfarnau yn cael eu mynegi yn union yr un modd. Roedd gan wrth-Semitiaeth yr arweinydd, a ddangosodd ei hun yn Munich yn yr 1920au, ochr galed, ymarferol bob amser. Roedd yn ei defnyddio mewn ffyrdd y gellid eu deall yn hawdd i ymdrin â'r math o broblemau a oedd ar feddyliau Almaenwyr cyffredin.

Daeth Alfred Rosenberg i mewn i gylch dylanwad Hitler yn 1920. Roedd ganddo gefndir eithaf anarferol. Roedd yn Almaenwr ethnig o'r Gweriniaethau Baltig, a oedd wedi bod yn rhan o Ymerodraeth Rwsia. Roedd wedi teithio'n eang yn yr Ymerodraeth, cyn dianc fel ffoadur yn sgil y Chwyldro Rwsiaidd. Yn gydnaws â'i wreiddiau yn y Dwyrain cyfriniol, roedd hiliaeth Rosenberg yn aml yn cael ei mynegi mewn termau ffugathronyddol. Ar adegau roedd yn ymddangos fel pe bai ganddo fwy o ddiddordeb mewn creu crefydd newydd na mudiad gwleidyddol.

Roedd Julius Streicher yn wahanol eto. Arweiniodd ei fudiad *volkisch* bach ei hun o amgylch Nuremberg, cyn ei uno â'r NSDAP yn 1921. Roedd ei gasineb hiliol yn bendant yn bornograffig.

Roedd gwrth-Semitiaeth yn ffurf hyblyg iawn ar ragfarn. Nid yw'r nodwedd hon yn helpu haneswyr i ddeall yn iawn ei chysylltiad â pholisïau go iawn a gyflwynwyd yn y Drydedd Reich. A ydoedd, mewn gwirionedd, y math o beth a allai fod, ynddi ei hun, wedi grymuso Canghellor y Reich mewn cenedl fodern

i ysgogi, yn bersonol ac yn fwriadol, raglen wleidyddol ysgubol?

Neu a ellir ei deall yn well fel naws gefndirol oedd i'w chanfod ymhlith elît y mudiad Sosialaidd Cenedlaethol, a gafodd ei throi'n realiti, os nad yn gwbl ddamweiniol, yna drwy broses anuniongyrchol? A pham y gwnaeth gweithredoedd gwrth-Semitig ddod yn fwyfwy radical gydag amser? A wnaeth unrhyw un gynllunio hyn, ynteu a oedd yn ganlyniad anorfod i'r modd yr oedd y Drydedd Reich yn gweithio?

Yn gyntaf, bydd yr erthygl hon yn amlinellu'r drafodaeth ynghylch natur gwrth-Semitiaeth Hitler. Yn ail, bydd yn ystyried pam y datblygodd y gwahaniaethu yn fwyfwy difrifol rhwng 1933 ac 1939. Yn olaf, bydd yn asesu'r modd y mae gwahanol haneswyr wedi ceisio dehongli cyflafanau Deddfau Nuremberg a *Kristallnacht*. Dim ond wedyn y gallwn ffurfio rhai casgliadau am nodweddion mwyaf hanfodol polisi gwrth-Semitig fel y câi ei arfer gan y Drydedd Reich yn y cyfnod cyn iddi fynd i ryfel.

## A oedd polisi gwrth-Semitig wedi'i gynllunio ymlaen llaw?

Yn *Mein Kampf* dadleuodd Hitler mai'r meddyliwr ddylai sefydlu amcanion mudiad gwleidyddol ac mai'r gwleidydd ddylai eu gwireddu. O bryd i'w gilydd, ychwanegodd, yr un person oedd y meddyliwr a'r gwleidydd. Roedd Hitler yn awgrymu ei fod ef ei hun yn un o'r brid prin hwnnw: y 'meddyliwr' a'r 'gweithredwr' wedi'u huno mewn un dyn. Mae rhai haneswyr yn derbyn yr ymffrost. Mae'r rhai a elwir yn 'fwriadwyr' yn credu mai penderfyniadau bwriadol gan actorion hanesyddol sy'n darparu'r prif rymoedd sydd, fel rheol, yn siapio digwyddiadau. Maent yn dadlau bod Hitler, ar gam cynnar, yn 'meddwl am' gynllun gwleidyddol sylfaenol, sy'n egluro realiti'r hyn a wnaed i Iddewon yr Almaen wedi'r cipio grym.

Ystyriwch waith Eberhard Jäckel. Mae'n cynnig rhywfaint o dystiolaeth ddifyr i gefnogi'r dehongliad hwn. Pan oedd yn dal yn y fyddin ym Medi 1919, ysgrifennodd Hitler lythyr yn diffinio'r hyn a olygai 'gwrth-Semitiaeth resymegol' iddo. Fe ddylai, dywedodd, ddechrau gyda brwydr gyfreithiol systematig i gael gwared ar yr holl hawliau statudol oedd ar gael i Iddewon. Pan oedd hyn wedi'i wneud, dylid wedyn 'ddileu' y bobl. Roedd erthygl a ysgrifennodd ym mhapur newydd y blaid yr un mor awgrymog. Argymhellodd Hitler y dylai Almaenwyr gael eu gwarchod rhag Iddewon drwy ddiogelu'r 'feirws' bygythiol mewn 'gwersylloedd crynhoi'.

Ar gychwyn cyntaf ei yrfa wleidyddol, roedd Hitler wedi meddwl am wahaniaethu cyfreithiol yn erbyn Iddewon yr Almaen, cael gwared arnynt o'r wlad mewn rhyw fodd radical a'u carcharu mewn gwersylloedd.

Daeth y syniadau yma'n realiti yn y Drydedd Reich. Ond ai'r syniadau, mewn gwirionedd, a achosodd ddigwyddiadau a welwyd dros ddeng mlynedd yn ddiweddarach? Dros ddegawd wedi i'r syniadau gael eu cofnodi gyntaf gan eithafwr gwleidyddol nad ydoedd yn ffigwr pwysig iawn, roedd polisïau'r Drydedd Reich yn cael eu gweithredu gan fudiad pleidiol anferth a strwythurau gwladol cenedl fodern. Roedd y cyd-destunau mor wahanol fel y gellir awgrymu y gallai llu o ffactorau newydd a phwysig fod wedi ymddangos i egluro pam y bu i'r polisi ddatblygu fel y gwnaeth mewn gwirionedd. Rhaid inni fod yn ofalus i beidio â neidio i gasgliadau.

Roedd yr hanesydd Martin Broszat yn credu bod Jäckel a'i debyg yn tanbrisio cymhlethdod eu pwnc. Yn wir, roedd yn amau bron popeth yr oedd yr haneswyr 'bwriadol' yn ei ddweud. Yn lle syniadau a phenderfyniadau bwriadol fel y prif rymoedd cymelliadol mewn hanes, daeth i bwysleisio 'strwythur' y systemau gwleidyddol, fel y ffactor oedd yn pennu sut yr oedd polisïau'r wladwriaeth yn datblygu mewn gwirionedd. O ganlyniad, mae ei fath ef o hanes weithiau'n cael ei alw yn 'hanes strwythurol. Felly, er bod Broszat yn derbyn bod Hitler yn bersonol yn wrth-Semitydd ffanatigaidd, roedd yn gwadu bod ei feddwl, mewn gwirionedd, yn egluro hynt Sosialaeth Genedlaethol.

Sut oedd Broszat yn dehongli gwrth-Semitiaeth? Tynnodd sylw at y ffaith mai ychydig iawn o syniadau Sosialaeth Genedlaethol oedd yn newydd. Roeddynt wedi bod yn rhan o fudiadau gwleidyddol tebyg yn yr Almaen ers cyn cof ac ychydig iawn o bobl oedd yn eu cymryd o ddifrif. Nid oeddynt yn ddim ond llwyth o sothach, oedd heb unrhyw allu i ysgogi niferoedd sylweddol o bobl i weithredu'n wleidyddol ar raddfa eang. Roedd gan hyd yn oed Hitler, meddai Broszat, lai o ddiddordeb mewn lledaenu athrawiaeth hilyddiaeth nag mewn lleisio 'ffanatigiaeth ddiymrwymiad yn llawn rhyfelgarwch pur' oedd yn fwy sylfaenol ac a oedd 'heb gynnwys, ac yn credu'n unig yn ei momentwm anorchfygol ei hun'.



Topham Picturepoint

*Tri o'r selogion yn saliwtio eu harweinydd: Goebbels, Goering a Hess. A oedd cystadleuaeth ymhlith y Natsïaid am gymeradwyaeth Hitler yn ffactor wrth wneud penderfyniadau?*

Mewn geiriau eraill, roedd Broszat yn gweld Hitler fel unigolyn llawn casineb oedd â'i ddiddordeb pennaf mewn dyfeisio sloganau a symbolau i hwyluso ymgyrchu a chythrwfl. Yn hynny o beth, roedd gwrth-Semitiaeth yn bwysig, nid yn gymaint fel sail cynllun gwleidyddol, ond fel ffynhonnell deunydd propaganda.

Mae'r dehongliadau hyn o wrth-Semitiaeth Hitler mor wahanol ag y gallant fod, heb herio'r syniad ei fod yn wirioneddol yn casáu Iddewon – ac ni fyddai neb yn gwneud hynny. Sut maent yn trosi i fod yn esboniadau o'r modd y datblygodd polisi hiliol yn y Drydedd Reich rhwng 1933 ac 1939?

## Datblygiad polisi gwrth-Semitig: safbwynt bwriadol

Yn *Anti-Semitism in the Third Reich*, amlinellodd Hermann Graml un o'r dehongliadau bwriadol mwyaf hylaw o'r modd y tyfodd polisi gwrth-Semitig. Nododd nifer o gamau o wahaniaethu a ddatblygodd y naill ar ôl y llall.

Galwodd y cam cyntaf yn 'wrthdroi rhyddfreiniad'. Parhaodd hyn o adeg y cipio grym tan ddechrau 1935. Prif nodwedd y cam hwn oedd diddymu'r hawliau sifil sefydledig oedd yn ddyledus i'r Iddewon. Ymhlith y ddeddfwriaeth wahaniaethol berthnasol roedd y Ddeddf er Adfer Gwasanaeth Sifil Proffesiynol (Ebrill 1933), a arweiniodd at ddiswyddo'r rhan fwyaf o swyddogion Iddewig, a Deddf y Fyddin (Mai 1935), a fu'n gyfrifol am wahardd y mwyafrif helaeth o Iddewon rhag gwasanaethu yn y lluoedd arfog.

Yna cafwyd cyfnod o 'arwahanu', pan gafodd yr Iddewon, i bob ystyr, eu rhoi mewn cwarantin i ffwrdd oddi wrth y gymuned o 'Almaenwyr go iawn'. Dechreuodd ym Mai 1935 gyda menter eang a bwriadol i foicotio siopau Iddewig. Roedd cymunedau cyfan ledled yr Almaen yn ymddangos fel petaent yn derbyn y neges wrth-Semitig. Arddangoswyd posteri mewn llawer o lefydd yn datgan nad oedd croeso i'r Iddewon yno. Cyflwynwyd deddfau lleol yn gwahardd Iddewon o fannau cyhoeddus.

Daeth y broses o arwahanu i'w hanterth yn rali'r blaid yn Nuremberg ym mis Medi 1935, pan gyhoeddodd Hitler Ddeddfau Nuremberg. Bu i Ddeddf Dinasyddiaeth y Reich amddifadu Iddewon o ddinasyddiaeth Almaenig lawn; fe wnaeth y Ddeddf er Diogelu Gwaed ac Anrhydedd Almaenig anghyfreithloni priodas a pherthynas rywiol rhwng Iddewon ac Almaenwyr. Daw Graml i'r casgliad fod yr Iddewon bellach, yn llythrennol, yn anghyffyrddadwy.

Daeth y 'cyfnod o ddifeddiannu' wedi'r Gemau Olympaidd a gynhaliwyd yn Berlin yn 1936. Roedd yn cynnwys llu o bolisïau oedd â'r nod o yrru'r Iddewon allan o'r economi a thynnu eu hasedau oddi arnynt. Ar y lefel leol, bu aelodau'r blaid yn diddymu busnesau Iddewig a'u cymryd drosodd. Ar y lefel genedlaethol, daeth y cyfnod i'w uchafbwynt gyda'r ddeddfwriaeth a ddilynodd y cyflafanau *Kristallnacht* ym mis Tachwedd 1938.

Cafodd y cyflafanau eu hunain eu hysgogi gan sefydliadau'r blaid, ac fe wnaethant arwain at ddinistrio eiddo Iddewig ar raddfa eang a thrais yn erbyn perchnogion yr eiddo. Yn ddiweddarach yr un mis, fodd bynnag, fe wnaeth pennaeth y Cynllun Pedair Blynedd, Hermann Goering, ddyfarnu (yn gwbl afresymegol) y dylid dal yr Iddewon eu hunain yn gyfrifol am yr hyn oedd wedi digwydd. Gosododd dreth o 1 biliwn Reichmark arnynt i wneud iawn am y difrod. Fe wnaeth hefyd basio deddf yn eu diarddel o fywyd economaidd yr Almaen.

Bu'r datblygiadau ofnadwy hyn yn borth i gyfnod mwy radical fyth o erledigaeth, a ddisgrifiwyd gan Graml fel y 'llwybr at hil-laddiad'. Gwnaed datganiadau llawn casineb eithafol yn gyhoeddus yn erbyn yr Iddewon gan arweinwyr Sosialaeth Genedlaethol. Yn bwysicaf oll, pan oedd yn siarad â'r *Reichstag* ym mis Ionawr 1939, proffwydodd Hitler ei hun, pe byddai rhyfel yn cychwyn, y byddai'n golygu 'difodiant hil yr Iddewon yn Ewrop'.

Roedd model Graml o ddatblygiad y gwahaniaethu yn nodi proses fesul cam, pan gafodd hawliau cyfreithiol yr Iddewon eu diddymu, cawsant eu gadael wedi'u harwahanu o gymdeithas, cafodd eu hasedau eu dwyn, ac yna bu'n rhaid iddynt ddioddef ymgyrch gasineb filain a osododd y llwybr ar gyfer hil-laddiad.



Getty Images

*Iddewon yn cael eu gorfodi i sgwrio'r palmant. Cafodd llawer ohonynt eu sarhau fel hyn mewn trefi a dinasoedd ledled yr Almaen*

Er hynny, petrusodd yr awdur ynghylch ei union esboniad o pam y digwyddodd. Ar adegau, yn gydnaws â syniadau Jäckel a Bullock, ymddangosai fel petai'n gweld y camau, hyd yn oed os nad oeddynt wedi'u cynllunio'n fanwl, yna o leiaf wedi'u rhagsynio mewn ffyrdd cyffredinol gan Hitler a'r bobl o'i amgylch. Cafodd gwahaniaethu ei gyflwyno mewn modd tameidiog am resymau tactegol, yn hytrach nag oherwydd ansicrwydd ynghylch y llwybr oedd yn cael ei ddilyn.

Mewn mannau eraill, fodd bynnag, roedd safbwynt Graml fymryn yn wahanol. Mewn erthygl yn '*Kristallnacht to Genocide*' a olygwyd gan W. H. Pehle (Berg 1991) yn trafod gwreiddiau'r Holocost, ychydig iawn o amser a dreuliodd yn ceisio canfod trefn gynllunio bendant ar gyfer polisi gwrth-Semitig. Yn hytrach, pwysleisiodd fod y syniad gwrth-Semitig oedd wrth wraidd mudiad Hitler bob amser mor eithafol fel bod ei natur, yn ei hun, yn pennu bod un cam o wahaniaethu yn arwain yn ddiedifar ac yn ddigymell at gam hyd yn oed yn fwy difrifol. Roedd tynged yr Iddewon yn y pen draw yn ganlyniad anorfod i natur ddwys y rhagfarn. Ond, pa bynnag ddehongliad yr ydych yn ei ffafrio, erys Graml yn sicr bod rhywbeth ynghylch syniadau a bwriadau Hitler a'i ddilynwyr a wnaeth bennu llwybr hanes.

## Datblygiad polisi gwrth-Semitig: safbwynt strwythurol

Roedd Hans Mommsen, fel Martin Broszat, yn derbyn y cynsail bod Sosialaeth Genedlaethol yn fudiad propaganda, heb ideoleg wirioneddol na chynlluniau gwleidyddol pendant. Pan ddaethant i rym, roedd ef o'r farn nad oedd gan yr arweinyddiaeth unrhyw syniad clir o'r hyn yr oeddynt am ei wneud na phwy fyddai'n gyfrifol am ei wneud. Bu i'r dryswch a ddaeth yn sgil hyn orfodi sefydliadau'r blaid a'u harweinwyr i gystadlu i gyflwyno'r hyn yr oedd pob un ohonynt yn ei deimlo oedd dymuniadau Hitler, fel y cawsant eu disgrifio yn sloganau propaganda hirsefydlog y mudiad. Yn yr anhrefn a ddilynodd, ceisiodd pawb ohonynt ddilyn polisïau mwyfwy radical mewn ymdrech i ddal sylw Hitler a hybu eu pwysigrwydd.

Gellir cymhwyso'r dehongliad hanesyddol hwn i ddatblygiad gwahaniaethu gwrth-Semitig. Mae'n awgrymu na wnaeth Hitler ei hun erioed fynd ati'n fwriadol i gynllunio neu ysgogi safiad gwrth-Semitig, ond i'r polisi ddeillio o'r amgylchiadau amhersonol o anhrefn a chystadleuaeth oedd yn hollbresennol yn y system wleidyddol ar y pryd. Gwyddai aelodau'r blaid yn iawn am bropaganda gwrth-Semitig hirsefydlog y mudiad.

Unwaith yr oedd Hitler yn rhedeg y wlad, penderfynodd rhai ohonynt, os oedd arnynt eisiau cyfran o'r grym gwleidyddol iddynt hwy eu hunain, na allent aros i Hitler benderfynu ar y polisi swyddogol ynghylch yr Iddewon. Wedi'r cyfan, roedd eu harweinydd yn enwog am ohirio penderfyniadau am amser hir iawn. O ganlyniad, penderfynodd Natsïaid unigol ddechrau rhoi erledigaeth wrth-Semitig ar waith. Wedi i'r erledigaeth honno gychwyn, roeddynt hefyd yn gyfrifol am ddwysáu'r gwahaniaethu, wrth i bob un ohonynt geisio rhagori ar ei gilydd.

Mae Mommsen wedi cyfeirio at y broses gyfan, yn gwbl addas, fel 'radicaleiddio cynyddol' y polisi. Yn y Drydedd Reich, pan oedd safonau arferol o weddustra wedi'u hatal, fe wnaeth cystadleuaeth ddwys rhwng y Natsïaid eu hunain greu'r erledigaeth wrth-Semitig gynyddol ddifrifol a ddisgrifiwyd ym model camau Graml – a hyn oll heb gyfraniad uniongyrchol gan Hitler.

### Cyflymu erledigaeth

**1933** Hitler yn dod yn Ganghellor y Reich ym mis Ionawr. Yn Ebrill mae'r Ddeddf er Adfer Gwasanaeth Sifil Proffesiynol yn cael ei phasio, gan orfodi gweision sifil Iddewig i ymddeol.

**1934** Deddf y Fyddin yn cael ei phasio, sy'n gwahardd Iddewon o wasanaeth milwrol. I ddilyn ceir haf o erledigaeth wrth-Semitig ledled yr Almaen. Ym mis Medi mae Deddfau Nuremberg yn cyhoeddi bod yr Iddewon yn cael eu heithrio o ddinasyddiaeth a gwarchodaeth waed Almaenig.

**1938** Ym mis Ebrill rhaid cofrestru'r holl asedau Iddewig gwerth mwy na 5,000 RM. Rhwng 9 ac 13 Tachwedd ceir y cyflafanau *Kristallnacht* ar draws yr Almaen. Mae'r rhain yn arwain at ddirwyon o 1 biliwn RM yn cael eu codi ar Iddewon Almaenig.

**1939** Ym mis Ionawr mae Hitler yn darogan wrth y *Reichstag*, os yw Ewrop yn mynd i ryfel, y bydd hil yr Iddewon yn cael ei ddinistrio.

## Astudiaeth achos: Deddfau Nuremberg

Mae angen inni archwilio'n fanwl honiadau dau ddehongliad hanesyddol sydd mor wahanol. Pa mor dda y gellir eu cymhwyso i ddigwyddiadau unigol?

Rydym eisoes wedi crybwyll Deddfau Nuremberg. Yn ystod haf 1935 gwelwyd cythrwfl cynyddol gan aelodau cyffredin y blaid yn erbyn Iddewon yr Almaen. Roedd Hitler yn ofni y gallai'r aflonyddwch niweidio adferiad economaidd bregus y genedl a phenderfynodd 'ei ffrwyno'.

Credai y gallai wneud hyn drwy basio deddfwriaeth gwahaniaethu. Ni phenderfynodd y *Führer* ar amserlen ar gyfer gweithredu. Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol y blaid yn erbyn y cefndir hwn. Ar 13 Medi, ddeuddydd yn unig cyn yr oedd disgwyl iddo draddodi araith glo bwysig ynghylch polisi tramor, newidiodd Hitler ei feddwl. Roedd arno angen rhywbeth newydd i siarad amdano.

Dim ond ar yr union adeg hon y penderfynodd gyhoeddi deddfau hiliol. Cafodd arbenigwyr o Weinyddiaeth Fewnol y Reich eu galw i Nuremberg y diwrnod canlynol. O fewn oriau roeddynt wedi drafftio sawl fersiwn o ddeddfau dinasyddiaeth a diogelu gwaed. Dewisodd Hitler yr opsiynau lleiaf eithafol. Cafodd y rhain eu datgelu i'r genedl mewn moment yn llawn drama y noson ganlynol. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, roedd yr holl broses ddeddfwriaethol hon wedi bod mor ffwrdd-â-hi fel bod cyfres o gyhoeddiadau atodol wedi dilyn yn ddiweddarach, i lenwi llu o dyllau cyfreithiol.

Dyma sut mae strwythurwyr yn deall Deddfau Nuremberg. Yr oeddynt yn deillio o ryw fath o gystadleuaeth a ddatblygodd rhwng aelodau cyffredin y blaid ac arweinwyr y wladwriaeth. Ni chawsant eu cynllunio'n iawn. Mae bwriadwyr, fodd bynnag, yn gweld pethau'n wahanol.

Roedd Herman Graml yn credu bod aflonyddwch gwrth-Semitig poblogaidd wedi codi yn ystod haf 1935 oherwydd bod arweinyddiaeth Sosialaeth Genedlaethol eisiau i hynny ddigwydd. Ac nid oedd y deddfau mor anfwriadol â hynny ychwaith. Wedi'r cwbl, cafodd Deddf Dinasyddiaeth ei hargymell yn rhaglen y blaid yn 1920.

At hynny, roedd ideolegydd Natsïaidd o'r enw Helmut Nicolai wedi gweithio yn y *Braunes Haus* yn ystod 1931–32. Pan gynlluniodd gyfansoddiad ar gyfer gwladwriaeth Natsïaidd i'r dyfodol, un o'i syniadau cyntaf oll oedd nodi mai dim ond pobl â gwaed Almaenig allai ddod yn ddinasyddion Almaenig.

Roedd pobl eisoes yn meddwl am ddeddfwriaeth diogelu gwaed hefyd. Er na allent gytuno ar y manylion, roedd Gweinyddiaeth Fewnol y Reich a sefydliadau eraill, megis Cynghrair Meddygon y Reich, wedi bod yn trafod rheolau a rheoliadau hiliol posibl am beth amser cyn mis Medi.

Mewn geiriau eraill, mae bwriadwyr yn credu, yn ystod misoedd cynnar 1935, ei bod hi'n bosibl bod arweinyddiaeth y Reich wedi bod yn paratoi'r Almaen ar gyfer deddfwriaeth hiliol. Pan ddaeth y deddfau, roeddynt mewn cytgord perffaith ag egwyddorion ideolegol sefydledig y mudiad.


## Astudiaeth achos: cyflafanau *Kristallnacht*

Ceir yr un faint o anghytundeb ynghylch arwyddocâd y terfysgoedd gwrth-Semitig a ledodd drwy'r Almaen rhwng 9 ac 13 Tachwedd 1938. Digwyddasant yn sgil saethu diplomydd Almaenig ym Mharis gan Iddew ifanc, ac fe wnaethant arwain at ddifrod i eiddo gwerth cannoedd o filiynau o Reichmarks. Cafodd 30,000 o Iddewon eu carcharu, cafodd 8,000 o fusnesau Iddewig eu dinistrio a chafodd llawer o Iddewon eu lladd. Dilynwyd y digwyddiadau hyn gan gyfres o ddeddfau, yn gwahardd Iddewon o economi'r Almaen ac yn dwysáu'r gwaith o dynnu eu hasedau oddi arnynt.

Mae'r hanesydd Uwe Adam yn strwythurwr. Mewn traethawd a gyhoeddwyd hefyd yn '*Kristallnacht to Genocide*', nododd y digwyddiad fel un a gychwynnwyd gan araith annog terfysg a draddodwyd gan Josef Goebbels (Gweinidog Propaganda y Reich) wrth benaethiaid y blaid yn Munich ar noson 9 Tachwedd. Beirniadodd Goebbels lofruddiaeth y diplomydd a dywedodd wrth y Natsïaid am ddychwelyd i'w rhanbarthau a threfnu trais gwrth-Semitig. Dyma'n union a wnaeth llawer ohonynt.

Er bod Hitler ei hun wedi bod yn siarad gyda Goebbels funudau ymlaen llaw, mae'n bosibl nad oedd ef, hyd yn oed, yn gwybod beth oedd ar fin digwydd. Pan holodd Goering ef am y peth y diwrnod canlynol, ymddangosai fel pe bai Hitler yn gwybod dim. Doedd gan Goering, yn sicr, ddim gwybodaeth am y digwyddiadau ymlaen llaw, ac roedd yn gynddeiriog ynghylch y modd yr oeddynt yn bygwth tarfu ar yr economi. Nid oedd penaethiaid yr heddlu, Himmler a Heydrich, yn hoff chwaith o'r hyn oedd yn digwydd. Roedd y terfysgoedd yn aml yn bygwth mynd allan o reolaeth a thanseilio'r drefn gyhoeddus.

Ym meddwl Adam, doedd yr un o'r swyddfeydd plaid lleol erioed wedi cynllunio ar gyfer *Kristallnacht* a doedd dim cydweithio rhwng awdurdodau canolog y Reich yn eu cylch. Mae'n honni nad oedd Goebbels wedi cynllunio ymlaen llaw i roi cychwyn arnynt am resymau yn ymwneud ag ideoleg, ond ei fod wedi penderfynu gwneud hynny yn syth cyn traddodi'r araith ar noson 9 Tachwedd er mwyn hybu ei statws personol yng ngolwg Hitler.



*Hitler wedi'i baentio yn arddull 'arwr Natsïaidd', 1935.*

Erbyn diwedd 1938 roedd Goebbels wedi mynd allan o fri, oherwydd perthynas gydag actores Tsiecaidd a ystyrid yn gyffredinol yn warthus. Drwy alw am derfysgoedd, roedd Goebbels yn ceisio adfer ei hun i fod ymhlith ffefrynnau Hitler ac ymddangos yn fwy teilwng o glod na, dyweder, Himmler neu Goering. Yn gydnaws â'r dehongliad hwn, roedd Adam yn credu bod y ddeddfwriaeth economaidd a ddilynodd y cyflafanau hefyd heb ei chynllunio. Roedd yn gwbl fanteisgar.

Dyma, felly, y syniadau strwythurol clasurol. Roedd y digwyddiadau heb eu cynllunio ac wedi'u gyrru gan gystadleuaeth rhwng arweinwyr ail-reng y Reich. Nid oedd eu canlyniadau wedi'u rhagweld.

Mae'r bwriadwr Avrahim Barkai yn credu, fodd bynnag, fod y dehongliad hwn yn gyfeiliornus. Mewn erthygl arall yn '*Kristallnacht to Genocide*', dadleuodd fod angen lleoli digwyddiadau Tachwedd 1938 mewn cyd-destun ehangach. Er enghraifft, roedd deddfau economaidd gwrth-Semitig wedi'u trafod o ddifrif yn 1936, pan wnaeth Hitler ei hun nodi angen i orfodi

treth arbennig ar Iddewon yr Almaen. Yng ngwanwyn 1938 roedd yr holl baratoadau angenrheidiol wedi'u gwneud, a chafodd deddfau cychwynnol eu cyflwyno. Ym mis Ebrill gorfodwyd Iddewon i ddatgelu eu holl asedau oedd yn werth dros 5,000 Reichmark.

Yn y mis Awst canlynol, roedd yn rhaid cofrestru pob busnes Iddewig. Ar yr un pryd, roedd mwy a mwy o fusnesau Iddewig yn cael eu cymryd drosodd gan Almaenwyr. Ar 14 Hydref 1938 datgelodd Hermann Goering wrth gyfarfod cudd fod yr amser wedi dod i yrru Iddewon allan o'r economi yn gyfan gwbl.

Ar y sail hon, hyd yn oed os ydym yn cyfaddef mai'r sbardun uniongyrchol ar gyfer *Kristallnach* oedd araith Goebbels, a ysgogwyd gan ddibenion personol, nid yw'n mynd at wraidd y mater. Ymddengys y cyflafanau yn fwy o sioe ar y cyrion, a roddodd esgus delfrydol i'r llywodraeth gyflwyno'r ddeddfwriaeth economaidd wahaniaethol radical yr oedd wedi'i chynllunio gyhyd ac a oedd, wrth ei natur, wedi'i gwreiddio ym mwriadau pwrpasol Hitler a'r bobl o'i amgylch.

## Sylwadau i gloi

Felly pa fath o hanes sy'n ein darbwyllo fwyaf: strwythurol ynteu fwriadol? Nid yw achos y bwriadwyr yn ein darbwyllo, o fynd ag ef i eithafion. Er enghraifft, mae'n ormodol honni bod Hitler a'r bobl o'i amgylch, cyn 1933, wedi datblygu cynlluniau manwl i'w gweithredu pan fyddent yn cymryd drosodd y wladwriaeth, a bod y rhain wedi'u dilyn yn gaeth wedi iddynt gipio grym. Nid yw'r dystiolaeth mor eglur â hynny.

Wedi'r cyfan, nid oedd sylwadau Hitler o ddechrau'r 1920au sydd wedi'u dyfynnu yn rhai manwl, ac nid oes unrhyw gofnod o Natsïaid yn cynllunio'r math o gynllun erledigaeth fesul cam a nodwyd gan Hermann Graml. Yn wir, mae model Graml o'r modd y datblygodd erledigaeth yn amheus o daclus. Mewn gwirionedd, roedd y wladwriaeth Natsïaidd ymhell o fod felly. Rhaid inni fod yn ofalus, rhag ofn bod Graml yn gorfodi ei syniadau trefnus ei hun ar realiti oedd yn fwy dryslyd.

Un o gryfderau parhaol hanes strwythurol yw ei werthfawrogiad o gystadleuaeth ac enllibio, a oedd yn nodweddu'r Drydedd Reich o'r gwaelod i'r brig. Roedd hwn yn wirioneddol yn awyrgylch lle roedd aelodau'r blaid yn ymladd brwydrau gwleidyddol diymatal i gael y llaw uchaf. Fe wnaeth y pwysau a gododd yn sgil ymgecru mor ymosodol yn bendant liwio'r modd y cafodd polisïau eu gweithredu.

Ond sylwch fy mod yn dweud bod y pwysau hwn wedi *lliwio* y modd y cafodd polisïau eu cyflwyno. Fe wnaeth ddylanwadu ar y modd y cafodd pethau eu gwneud – er enghraifft, amseru datgan Deddfau Nuremberg ac amseru'r ddeddfwriaeth ddifeddiannol a ddaeth yn sgil *Kristallnacht*. Ond nid yw hyn yn golygu mai'r pwysau oedd yn sylfaenol gyfrifol am greu gwladwriaeth hiliol Hitler. Hyd yn oed pe byddai'r *Führer* wedi gallu rhedeg gweinyddiaeth drefnus, rhaid inni amau mai un dreisgar o wrth-Semitig fyddai hi wedi bod yn y pen draw beth bynnag.

Ni wnaeth aelodau Sosialaeth Genedlaethol radicaleiddio polisi gwrth-Semitig am resymau'n ymwneud â dyrchafiad personol yn unig. Fel y mae Martin Broszat a Hans Mommsen yn cyfaddef, roedd gwrth-Semitiaeth radical yn un o'r ychydig bethau yr arhosodd Hitler yn gyson yn ei gylch trwy gydol ei fywyd. Roedd ei gefnogwyr yn gyffredinol yn debyg. Hyd yn oed os oedd ganddynt, fel Rosenberg a Streicher (a grybwyllwyd yn y cyflwyniad), ragfarnau oedd yn wahanol mewn rhai agweddau i eiddo eu *Führer*, roeddynt yn dal i fod yn wrth-Semitiaid digon difrifol.

Er bod cystadleuaeth rhwng unigolion o bosibl wedi helpu i ysgogi dynion fel y rhain (gan gynnwys Hitler, Goering, Goebbels a Himmler) i weithredu, ac o bosib wedi lliwio manylion y modd y cafodd polisïau eu rhoi ar waith, nid oedd yn rhaid iddynt fod mewn cystadleuaeth i wneud pethau atgas i'r Iddewon. Roedd mudiad Sosialaeth Genedlaethol yn wirioneddol yn gorff gwrth-Semitig sefydledig, a'i union natur fu'n gyfrifol am osod y seiliau ar gyfer polisi hiliol mwyfwy radical.

Ar sail hyn, roedd llif y digwyddiadau ar ôl 1933 gyfystyr â dilyn syniad er ei ddiben ei hun. Nid yw cyfaddef bod datblygiad polisi wedi'i liwio gan bwysau sefydliadol yn golygu gwadu mai ffurf hyblyg ar hanes bwriadol, sy'n gallu ystyried anhrefn y wladwriaeth Natsïaidd, sy'n cynnig yr esboniad mwyaf boddhaol o'r bennod drist hon yn hanes Ewrop.

## Darllen pellach


Broszat, M. (1966) *German National Socialism, 1919-1945*, Clio Press.

Graml, H. (1992) *Anti-Semitism in the Third Reich*, Basil Blackwell.

Jäckel, E. (1972) *Hitler's World View: A Blueprint for Power,* Harvard University Press.

Kershaw, I. (1985) *The Nazi Dictatorship*, Edward Arnold.


Mae Dr Martyn Housden yn Ddarlithydd mewn Hanes Ewropeaidd Modern a Chyfoes ym Mhrifysgol Bradford. Ef yw awdur Resistance and Conformity in the Third Reich (Routledge, 1997).

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Philip Allan Updates o History Review, Mawrth 2009: *Intentionalist v Functionalist History*, Martin Housden.

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwyr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

Cyfieithydd: Nia Peris
Golygydd: Lynwen Rees Jones
Dylunydd: Richard Huw Pritchard